

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Blaenau Ffestiniog, Gwynedd)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiad
Traffig Dros Dro) 2022

The A470 Trunk Road (Blaenau
Ffestiniog, Gwynedd) (Temporary
Traffic Prohibitions & Restriction)
Order 2022

Gwnaed 26 Medi 2022

Made 26 September 2022

Yn dod i rym 1 Hydref 2022

Coming into force 1 October 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod digwyddiad ffilmio yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted by reason of a filming event being held on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Blaenau Ffestiniog, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2022.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Blaenau Ffestiniog, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibitions & Restriction) Order 2022 and this Order comes into force on 1 October 2022.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

2. In this Order—
"event period" ("*cyfnod y digwyddiad*") means that period commencing at 18:00 hours on 1 October 2022 and ending when the temporary traffic signs are removed;

(1) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, section 1(1). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;
- (c) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos; a
- (d) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr “cyfnod y digwyddiad” (“*event period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Maentwrog i fan i'r dwyrain o Gonwy;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Trosedd a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of the member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;
- (c) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned; and
- (d) any vehicle being used by an authorised event official in support of and for reasons of the safety of the relevant event;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Maentwrog to east of Conwy trunk road.

Prohibitions and restriction

3. No person may, during the event period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the event period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29 and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

7.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt a bennir yn erthygl 2(a) a (b).

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 2 ddiwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

26 Medi 2022

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Gwahardd cerbydau a beicwyr dros dro

Y darn o'r gefnffordd ym Mlaenau Ffestiniog, Gwynedd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr y Parc hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol cylchfan yr A470/A496.

ATODLEN 2

Terfyn cyflymder 30 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd ym Mlaenau Ffestiniog, Gwynedd sy'n ymestyn o'r arwyddion terfyn cyflymder 40 mya parhaol sydd 370 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Ffordd Glanpwll hyd at bwynt 2.19 cilometr i'r gogledd o'r arwyddion terfyn cyflymder parhaol hynny.

5. No person may, during the event period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

6. No person may, during the event period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Application

7.—(1) The prohibitions and restriction in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle specified in article 2(a) and (b).

Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order is 2 days.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

26 September 2022

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE 1

Temporary prohibition of vehicles and cyclists

The length of the trunk road at Blaenau Ffestiniog, Gwynedd that extends from its junction with Park Square to its junction with the south-eastern side of the A470/A496 roundabout.

SCHEDULE 2

Temporary 30 mph speed limit and no overtaking

The length of the trunk road at Blaenau Ffestiniog, Gwynedd that extends from the permanent 40 mph speed limit signs located 370 metres north of its junction with Glanypwll Road to a point 2.19 kilometres north of those permanent speed limit signs.